



# Nodiadau gwybodaeth: Mwydod

**Yn y DU, gellir rhannu mwydod yn 4 grŵp ecolegol.**

**Anecic** - Mwydod sy'n tynnu'n ddwfn ac yn bwyta deunydd organig sy'n pydru a phridd. Rhywogaethau mawr gyda phennau tywyll ac ymddangosiad coch.

**Endogeic** - Mwydod sy'n tyllu'n fas ac yn bwyta pridd. Rhywogaethau canolig i fawr eu maint gydag ystod liwiau golau.


**Epigeic** - Mwydod sy'n byw ar yr wyneb ac yn bwyta deunydd organig sy'n pydru. Rhywogaethau bach eu maint sy'n aml yn goch eu lliw.

**Compost** - Maent i'w cael mewn microgynefinoedd fel pren sy'n pydru, gwrtaiath a biniau compost. Maent yn bwyta deunyddiau organig sy'n pydru. Rhywogaethau gweithredol o faint canolig gydag ymddangosiad streipiog.



## Ffeithiau am fwydod

- Mae mwydod wedi bodoli am tua 600 o filiynau o flynyddoedd.
- Dros y byd i gyd, mae tua 34,000 o wahanol fathau o fwydod. Mae rhai mor fach nes y bydd angen microsop arnoch i'w gweld.
- Mae mwydod yn anadlu trwy eu croen, sy'n gorfod aros yn llaith er mwyn amsugno ocsigen o'r aer.
- Mae mwydod yn ddeurywiol, sy'n golygu bod ganddyn nhw gelloedd atgynhyrchu gwrywaidd a benywaidd. Fodd bynnag, mae angen mwydyn arall arnyn nhw er mwyn atgynhyrchu.
- Mae mwydod yn dodwy wyau, sy'n deor fel mwydod bach.
- Mae mwydod bach yn datblygu mewn cocynau. Maent yn fabanod am 60 i 90 diwrnod ac mae'n cymryd tua blwyddyn iddyn nhw ddod yn oedolion.
- Gall mwydod fyw am hyd at 10 mlynedd.
- Does dim stumog gan fwydyn. Yn hytrach, mae bwyd yn mynd yn syth i'w coluddyn.
- Mae mwydod yn bwyta eu pwysau mewn gwastraff organig, pridd a mwynau ac yn carthu eu pwysau eu hunain bob dydd mewn baw. Mae hyn yn creu compost ac yn cyfoethogi'r pridd.
- Gall 12 miliwn o fwydod i bob acer symud 20 tunnell o bridd bob blwyddyn.
- Mae mwydod tua 1,000 o weithiau'n gryfach na phobl - mewn cymhariaeth, wrth gwrs!
- Y mwydyn hiraf yw'r Mwydyn anferth Affricanaidd, a all dyfu hyd at 6.7m o hyd.
- Mae mwydod yn greaduriaid gwydn. Os torrwyd chi fwydyn yn ei hanner yn ddamweiniol wrth arddio, dim ond hanner ohono wnaiff farw. Bydd y darn gyda'r cyfrwy (y darn tewach a phinc) yn goroesi.
- Mwydod yw hoff fwyd y mochyn daear.





## Nodiadau gwybodaeth: Mwydod



MWYDYN COMPOST



MWYDYN BACH



MWYDYN PIWS



MWYDYN GWYRDD




MWYDYN PENDDU



MWYDYN CYNFFON  
WYTHONGLOG

### Methu adnabod eich mwydyn? Gallai fod yn fwydyn anaeddfed.

Os ydych chi wedi cael anhawster adnabod mwydyn, efallai bod y mwydyn yn anaeddfed. Nid oes gan fwydod anaeddfed gyfrwy sydd wedi ei ddatblygu'n amlwg.



MWYDYN ANAEDDFED

Lluniau drwy garedigrwydd **Harry Taylor** © Natural History Museum [www.opalexplornature.org/earthwormguide](http://www.opalexplornature.org/earthwormguide)

### Angen mwy o adnoddau dysgu, data a gwybodaeth?

E-bostiwrch: [addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
neu ewch i [www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu](http://www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu)

Fersiwn/iaith arall neu brint bras:  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) // 0300 065 3000